Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a drafodwyd ar 6 Ionawr 2025

Ionawr 2025

# 1. Cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Mae'r Pwyllgor yn trafod effaith cytundebau rhyngwladol a osodir yn Senedd y DU, o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* (Deddf 2010), ar Gymru. Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol 21 diwrnod.

**4.** Wrth drafod cytundeb rhyngwladol, rydym yn ystyried:

- a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 6 Ionawr 2025[1], gwnaethom ystyried 12 cytundeb rhyngwladol a oedd wedi'u gosod yn ddiweddar yn Senedd y DU:

- Protocol i Gytundeb Interbus;
- Diwygiadau i'r Cytundeb sy'n Sefydlu Cronfa Datblygu Affrica;
- Cytundeb Rhwng y DU a Mauritius ynghylch Archipelago Chagos;
- Y DU/Y Weriniaeth Tsiec: Cytundeb ar Derfynu'r Cytundeb rhwng y DU a Gweriniaeth Ffederal Tsiec a Slofacia ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau;
- Y DU/Lithwania: Cytundeb ar Derfynu'r Cytundeb ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau;
- Y DU/Slofenia: Cytundeb ar Derfynu'r Cytundeb ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau;

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Ionawr 2025

- Y DU/Croatia: Cytundeb ar Derfynu'r Cytundeb ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau;
- Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Gwlad Thai;
- Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Brasil;
- Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Mongolia;
- Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Moldofa;
- Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Tajikistan.

**6.** Gwnaethom gytuno i gymryd rhagor o gamau mewn perthynas â dau o'r cytundebau hyn. Mae manylion pob un o'r cytundebau, a'n camau priodol, wedi'u nodi isod.

**7.** Gwnaethom hefyd drafod a nodi gohebiaeth ynghylch cytundeb rhyngwladol y gwnaethom ei drafod yn flaenorol.

# 2. Cytundebau y mae angen rhagor o gamau yn eu cylch

**Protocol i Gytundeb Interbus ynghylch cludo teithwyr yn rhyngwladol ar fws a bws**

**8.** Gosodwyd y cytundeb hwn yn Senedd y DU ar 24 Hydref 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 3 Rhagfyr 2024.

**9.** Mae Cytundeb Interbus yn gytuniad amlochrog sy'n caniatáu ar gyfer teithiau coets achlysurol wedi'u rhyddfrydoli rhwng un ar ddeg o bartïon, gan gynnwys y DU a'r UE. Mae gwasanaethau achlysurol fel arfer yn deithiau llogi preifat neu'n deithiau gwyliau untro.

**10.** Diben y Protocol hwn yw estyn Cytundeb Interbus o gwmpasu 'gwasanaethau achlysurol' rhyngwladol i gynnwys darpariaethau mynediad i'r farchnad ar gyfer gwasanaethau 'arferol ac arferol arbennig' rhyngwladol ar fws a choets.

**11.** Mae gwasanaethau arferol yn codi ac yn gosod teithwyr ar fannau aros sefydlog ar lwybrau penodedig (e.e. gwasanaethau rhwng Leeds ac Amsterdam gyda mannau aros ar hyd y ffordd). Mae gwasanaethau arferol arbennig yn wasanaethau arferol sy'n cludo categorïau penodol o deithwyr (e.e. disgyblion i'r ysgol a/neu oddi yno).

**12.** Mae'r trefniadau mynediad i'r farchnad rhyngwladol presennol ar gyfer gwasanaethau arferol ac arferol arbennig, yn benodol rhwng y DU a'r UE, wedi'u cwmpasu gan ddarpariaethau dros dro yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE. Cafodd y darpariaethau dros dro hyn eu cynnwys ar y sail y byddai'r DU yn cadarnhau'r Protocol ar ôl gadael yr UE, ac felly bydd cadarnhau'r Protocol yn cyflawni'r ymrwymiad rhyngwladol hwn.

**13.** Ar gyfer y DU, bydd y cytundeb hwn hefyd yn disodli darpariaethau dros dro yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu sydd ar hyn o bryd yn caniatáu i wasanaethau arferol ac arferol arbennig weithredu rhwng y DU a'r UE nes y daw'r Protocol i rym.

**14.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y byddai angen deddfwriaeth newydd i weithredu'r cytundeb[2], a chafodd Rheoliadau Trafnidiaeth Ffordd (Gwasanaethau Teithwyr Rhyngwladol) (Diwygio) 2024[3] eu cymeradwyo o ganlyniad gan Senedd y DU ym mis Rhagfyr 2024[4]. Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2025, yr un diwrnod ag y disgwylir i'r Protocol ddod i rym.[5]

**15.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan, er nad yw'r cytundeb yn ymwneud â mater datganoledig i Gymru, gan ei fod yn ymrwymiad rhyngwladol a all effeithio ar weithredwyr bws/coets yng Nghymru sydd am ymgymryd â gwasanaethau arferol ac arferol arbennig yn rhyngwladol, ymgynghorodd Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru ar gynlluniau'r DU i gadarnhau'r Protocol ac ynghylch gweithredu deddfwriaeth. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, ni chodwyd pryderon.[6]

**16.** Gan fod cadarnhad Llywodraeth y DU o'r cytundeb hwn yn rhwymedigaeth ryngwladol dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a gall y cytundeb effeithio ar weithredwyr bws/coets yng Nghymru, gwnaethom gytuno i hysbysu Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith o'r cytundeb a'i ddeddfwriaeth weithredu, yn enwedig yn sgil ei gyfranogiad yn yr ymgynghoriad traws-bwyllgor[7] ar yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

### Diwygiadau i'r Cytundeb sy'n Sefydlu Cronfa Datblygu Affrica

**17.** Gosodwyd y cytundeb hwn yn Senedd y DU ar 4 Tachwedd 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 10 Rhagfyr 2024.

**18.** Diben y cytundeb yw galluogi Cronfa Datblygu Affrica (y 'Gronfa') i ddatgloi mwy o arian mewn marchnadoedd ariannol drwy weithredu 'Opsiwn Benthyca Marchnad'.

---

[2] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Protocol i Gytundeb Interbus gyda Chytundeb a Phenderfyniad, (Saesneg yn unig) Hydref 2024, paragraff 5
[3] Ar gael ar: www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2024/1370/contents/made
[4] Senedd y DU, Rheoliadau Trafnidiaeth Ffordd (Gwasanaethau Teithwyr Rhyngwladol) (Diwygio) 2024 (Saesneg yn unig)
[5] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Protocol i Gytundeb Interbus gyda Chytundeb a Phenderfyniad, (Saesneg yn unig) Hydref 2024, paragraff 5
[6] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Protocol i Gytundeb Interbus gyda Chytundeb a Phenderfyniad, (Saesneg yn unig) Hydref 2024, paragraff 10
[7] Senedd Cymru, Ymgynghoriad: Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, Awst 2024

**19.** Mae’r Gronfa yn un o brif arfau’r Grŵp Banc Datblygu Affrica (y ‘Banc’), sef y sefydliad cyllid datblygu mwyaf sy’n canolbwyntio ar Affrica yn unig. Mae’n cefnogi gwledydd Affrica i ymateb i heriau cynyddol y rhanbarth, megis newid hinsawdd, breuder, ansefydlogrwydd a lefelau dyled uchel.

**20.** Mae’r Gronfa yn darparu benthyciadau a grantiau â chonsesiwn mawr i'r 37 o wledydd tlotaf yn Affrica nad yw eu teilyngdod credyd yn ddigonol i fenthyg o’r prif Fanc.

**21.** Bydd y diwygiadau a gynigir gan y cytundeb yn caniatáu i'r Gronfa gyrchu marchnadoedd cyfalaf rhyngwladol a chodi cyllid heb gonsesiwn ar gyfer y 37 o wledydd tlotaf yn Affrica drwy drosoli ei hecwiti presennol.

**22.** Mae’r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth newydd i weithredu’r cytundeb.[8]

**23.** Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi, gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yn llwyr ac nad oes iddo oblygiadau i’r llywodraethau datganoledig, na wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â hwy ynghylch drafftio’r cytundeb.[9]

**24.** Er bod y cytundeb yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, gan gynnwys cysylltiadau rhyngwladol a gwasanaethau a marchnadoedd ariannol, gwnaethom gytuno i hysbysu Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol o'r cytundeb yn sgil ei waith craffu ar Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru[10] sy’n cynnwys cynllun gweithredu ar Gymru ac Affrica.

[8] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Diwygiadau i'r Cytundeb sy’n Sefydlu Cronfa Datblygu Affrica, (Saesneg yn unig) Tachwedd 2024, paragraff 5
[9] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Diwygiadau i'r Cytundeb sy’n Sefydlu Cronfa Datblygu Affrica, (Saesneg yn unig) Tachwedd 2024, paragraff 10
[10] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru

# 3. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

### Cytundeb rhwng y DU a Mauritius ynghylch archipelago Chagos

**26.** Ar 7 Hydref 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gytundeb mewn egwyddor i gwblhau cytuniad rhwng y DU a Mauritius mewn perthynas ag Ynysoedd Chagos.[11]

**27.** Dan y cytundeb arfaethedig, byddai'r DU yn ildio ei hawliad sofraniaeth o'r ynysoedd i Mauritius gan gynnal prydles 99 mlynedd dros Diego Garcia, sef lleoliad canolfan awyr filwrol rhwng y DU a'r Unol Daleithiau.

**28.** Wrth gyhoeddi'r cytundeb mewn egwyddor, dywedodd David Lammy AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu, y canlynol:

> *"... after two years of negotiations and decades of disagreement, the United Kingdom and Mauritius have reached a political agreement on the future of the British Indian Ocean Territory. The treaty is neither signed nor ratified, but I wanted to update the House on the conclusion of formal negotiations at the earliest opportunity."*

**29.** Nododd y canlynol:

> *"This is an agreement that secures our national defence and security interests in an important part of the globe."*

**30.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, sef cysylltiadau rhyngwladol ac amddiffyn, gwnaethom gytuno i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

### Pedwar cytundeb terfynu unigol rhwng y DU a'r Weriniaeth Tsiec, Lithwania, Slofenia a Croatia ar Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau

**31.** Gosodwyd y cytundebau terfynu rhwng y DU a'r Weriniaeth Tsiec a rhwng y DU a Lithwania yn Senedd y DU ar 28 Tachwedd 2024. Eu dyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 16 Ionawr 2025.

---

[11] Llywodraeth y DU, Datganiad Llafar: Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India: Negodiadau, (Saesneg yn unig) 7 Hydref 2024

**32.** Gosodwyd cytundebau terfynu rhwng y DU a Slofenia a rhwng y DU a Croatia yn Senedd y DU ar 18 Rhagfyr 2024. Eu dyddiad cau ar gyfer craffu yw 5 Chwefror 2025.

**33.** Diben y cytundebau terfynu yw terfynu Cytuniadau Buddsoddi Dwyochrog y partïon, sy'n cynnwys darpariaethau diogelu buddsoddiad sy'n rhoi ymrwymiadau i fuddsoddwyr ar y driniaeth y gallant ddisgwyl ei chael mewn cysylltiad â buddsoddiadau sefydledig yn nhiriogaeth y wladwriaeth arall.

**34.** Mae terfynu'r Cytuniadau Buddsoddi Dwyochrog hyn yn unol ag ymrwymiadau'r UE a wnaed gan y DU pan oedd yn aelod-wladwriaeth.

**35.** Mae'r Memoranda Esboniadol mewn perthynas â phob cytundeb terfynu yn cadarnhau, er bod y cytundebau'n ymwneud â buddsoddiad rhyngwladol, sy'n fater a gedwir yn ôl, o gofio bod y Cytuniadau Buddsoddi Dwyochrog yn gymwys i drin buddsoddiadau Gweriniaeth Tsiec/Lithwania/Slofenia/Croatia gan y llywodraethau datganoledig (a'r gwrthwyneb), hysbysodd Llywodraeth y DU y llywodraethau datganoledig o'r cytundebau.[12]

**36.** Gan fod y cytundebau'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl, gan gynnwys cysylltiadau rhyngwladol a gwasnaethau ariannol, gwnaethom gytuno i'w nodi er gwybodaeth yn unig.

**Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Gwlad Thai**

**37.** Gosodwyd y cytundeb hwn yn Senedd y DU ar 15 Hydref 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 21 Tachwedd 2024.

**38.** Diben y cytundeb yw rhoi'r fframwaith mewn cyfraith ryngwladol ar gyfer gwasanaethau awyr rhwng y DU a Gwlad Thai a'r tu hwnt.

**39.** Mae'r cytundeb yn disodli cytundeb 1950 sy'n llywodraethu gwasanaethau awyr rhwng y DU a Gwlad Thai ac yn cynnwys darpariaethau modern ar faterion sy'n berthnasol i weithrediad gwasanaeth awyr rhyngwladol wedi'i drefnu. Mae hefyd yn gosod y telerau ac amodau ar gyfer gweithredu gwasanaethau awyr,

---

[12] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Y Weriniaeth Tsiec: Cytundeb ar Derfynu'r Cytundeb rhwng y DU a Gweriniaeth Ffederal Tsiec a Slofacia ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau, Tachwedd 2024, paragraff 10 (Saesneg yn unig); Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Lithwania: Cytundeb ar Derfynu'r Cytundeb ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau, Tachwedd 2024, paragraff 10 (Saesneg yn unig); Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Slofenia: Cytundeb ar Derfynu'r Cytundeb ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau, Rhagfyr 2024, paragraff 10 (Saesneg yn unig); Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Croatia: Cytundeb ar Derfynu'r Cytundeb ar gyfer Hyrwyddo a Diogelu Buddsoddiadau, Rhagfyr 2024, paragraff 10 (Saesneg yn unig)

gan gynnwys mewn cysylltiad â diogelwch, diogelwch wrth hedfan, dyletswyddau a thaliadau tollau a materion eraill.

**40.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth i weithredu'r cytundeb.[13]

**41.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan, er nad yw'r cytundeb yn ymwneud â mater datganoledig, ei fod yn effeithio ar wasanaethau awyr rhwng y llywodraethau datganoledig a Gwlad Thai. Fel y cyfryw, mae'r llywodraethau datganoledig wedi'u cadw'n ymwybodol o gytundebau gwasanaethau awyr newydd y DU ac mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan na chodwyd pryderon ynghylch y cytundeb.[14]

**42.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl, sef cysylltiadau rhyngwladol, gwnaethom gytuno i'w nodi er gwybodaeth yn unig.

### Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Brasil

**43.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 13 Tachwedd 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 18 Rhagfyr 2024.

**44.** Diben y cytundeb yw rhoi'r fframwaith mewn cyfraith ryngwladol ar gyfer gwasanaethau awyr rhwng y DU a Brasil a'r tu hwnt.

**45.** Mae'r cytundeb yn disodli cytundeb 1946 sy'n llywodraethu gwasanaethau awyr rhwng y DU a Brasil ac yn cynnwys darpariaethau modern ar faterion sy'n berthnasol i weithrediad gwasanaethau awyr rhyngwladol wedi'u trefnu.

**46.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth i weithredu'r cytundeb.[15]

**47.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan, er nad yw'r cytundeb yn ymwneud â mater datganoledig, ei fod yn effeithio ar wasanaethau awyr rhwng y llywodraethau datganoledig a Brasil. Fel y cyfryw, mae'r llywodraethau datganoledig wedi'u cadw'n ymwybodol o gytundebau gwasanaethau awyr

[13] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Gwlad Thai: Cytundeb yn Ymwneud â Gwasanaethau Awyr, Hydref 2024, paragraff 5 (Saesneg yn unig)
[14] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Gwlad Thai: Cytundeb yn Ymwneud â Gwasanaethau Awyr, Hydref 2024, paragraff 10 (Saesneg yn unig)
[15] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Brasil: Cytundeb yn Ymwneud â Gwasanaethau Awyr, Tachwedd 2024, paragraff 5 (Saesneg yn unig)

newydd y DU ac mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan na chodwyd pryderon ynghylch y cytundeb.[16]

**48.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl, sef cysylltiadau rhyngwladol, gwnaethom gytuno i'w nodi er gwybodaeth yn unig.

### Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Mongolia

**49.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 13 Tachwedd 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 18 Rhagfyr 2024.

**50.** Diben y cytundeb yw rhoi'r fframwaith mewn cyfraith ryngwladol ar gyfer gwasanaethau awyr rhwng y DU a Mongolia a'r tu hwnt.

**51.** Mae'r cytundeb yn disodli cytundeb blaenorol o 2000 yn llywodraethu gwasanaethau awyr ac yn gosod y telerau ac amodau ar gyfer gweithredu gwasanaethau awyr, gan gynnwys mewn cysylltiad â diogelwch, diogelwch wrth hedfan, dyletswyddau a thaliadau tollau a materion eraill.

**52.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth i weithredu'r cytundeb.[17]

**53.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan, er nad yw'r cytundeb yn ymwneud â mater datganoledig, ei fod yn effeithio ar wasanaethau awyr rhwng y llywodraethau datganoledig a Mongolia. Fel y cyfryw, mae'r llywodraethau datganoledig wedi'u cadw'n ymwybodol o gytundebau gwasanaethau awyr newydd y DU ac mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan na chodwyd pryderon ynghylch y cytundeb.[18]

**54.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl, sef cysylltiadau rhyngwladol, gwnaethom gytuno i'w nodi er gwybodaeth yn unig.

[16] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Brasil: Cytundeb yn Ymwneud â Gwasanaethau Awyr, Tachwedd 2024, paragraff 10 (Saesneg yn unig)
[17] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Mongolia: Cytundeb yn Ymwneud â Gwasanaethau Awyr, Tachwedd 2024, paragraff 5 (Saesneg yn unig)
[18] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Mongolia: Cytundeb yn Ymwneud â Gwasanaethau Awyr, Tachwedd 2024, paragraff 10 (Saesneg yn unig)

## Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Moldofa

**55.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 13 Tachwedd 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy’n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 18 Rhagfyr 2024.

**56.** Diben y cytundeb yw rhoi’r fframwaith mewn cyfraith ryngwladol ar gyfer gwasanaethau awyr rhwng y DU a Moldofa a’r tu hwnt.

**57.** Mae’r cytundeb yn disodli’r trefniadau rhwng yr UE a Moldofa a oedd yn gymnwys i’r DU tan 31 Rhagfyr 2020 ar ddiwedd cyfnod pontio Brexit. Mae’r cytundeb yn gosod y telerau ac amodau ar gyfer gweithredu gwasanaethau awyr, gan gynnwys mewn cysylltiad â diogelwch, diogelwch wrth hedfan, dyletswyddau a thaliadau tollau a materion eraill.

**58.** Mae’r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth i weithredu’r cytundeb.[19]

**59.** Mae’r Memorandwm Esboniadol yn datgan, er nad yw’r cytundeb yn ymwneud â mater datganoledig, ei fod yn effeithio ar wasanaethau awyr rhwng y llywodraethau datganoledig a Moldofa. Fel y cyfryw, mae’r llywodraethau datganoledig wedi’u cadw’n ymwybodol o gytundebau gwasanaethau awyr newydd y DU ac mae’r Memorandwm Esboniadol yn datgan na chodwyd pryderon ynghylch y cytundeb.[20]

**60.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl, sef cysylltiadau rhyngwladol, gwnaethom gytuno i’w nodi er gwybodaeth yn unig.

## Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Tajikistan

**61.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 13 Tachwedd 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy’n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 18 Rhagfyr 2024.

**62.** Mae’r cytundeb yn rhoi’r cytundeb cyfreithiol rwymol cyntaf ar waith sy'n llywodraethu gwasanaethau awyr rhwng y DU a Tajikistan.

---

[19] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Moldofa: Cytundeb yn Ymwneud â Gwasanaethau Awyr, Tachwedd 2024, paragraff 5 (Saesneg yn unig)
[20] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Moldofa: Cytundeb yn Ymwneud â Gwasanaethau Awyr, Tachwedd 2024, paragraff 10 (Saesneg yn unig)

**63.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth i weithredu'r cytundeb.[21]

**64.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan, er nad yw'r cytundeb yn ymwneud â mater datganoledig, ei fod yn effeithio ar wasanaethau awyr rhwng y llywodraethau datganoledig a Tajikistan. Fel y cyfryw, mae'r llywodraethau datganoledig wedi'u cadw'n ymwybodol o gytundebau gwasanaethau awyr newydd y DU ac mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan na chodwyd pryderon ynghylch y cytundeb.[22]

**65.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl, sef cysylltiadau rhyngwladol, gwnaethom gytuno i'w nodi er gwybodaeth yn unig.

[21] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Tajikistan: Cytundeb yn Ymwneud â Gwasanaethau Awyr, Tachwedd 2024, paragraff 5 (Saesneg yn unig)
[22] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Tajikistan: Cytundeb yn Ymwneud â Gwasanaethau Awyr, Tachwedd 2024, paragraff 10 (Saesneg yn unig)

# 4. Gohebiaeth yn ymwneud â chytundebau a drafodwyd yn flaenorol

### Cytundeb Gwlad Letyol Sefydliad Coedwigoedd y DU/Ewrop

**67.** Gwnaethom drafod y cytundeb hwn yn ein cyfarfod ar 24 Mehefin 2024[23], a chytuno i'w ddwyn i sylw'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

**68.** Ar 17 Gorffennaf 2024, ysgrifennodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith[24] at Lywodraeth Cymru yn gofyn am fwy o wybodaeth am y cyfleoedd posibl a roddir i Gymru drwy'r cytundeb.

**69.** Ymatebodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig[25] i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar 16 Medi 2024, gan gadarnhau, er nad ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ar y penderfyniad i sefydlu presenoldeb yn y DU, ei bod yn disgwyl cael ei diweddaru gan yr Uned Goedwigoedd Ryngwladol.

**70.** Mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn cadarnhau y cynrychiolir Cymru ar Gyngor Sefydliad Coedwigoedd y DU/Ewrop, gan nodi bod Prifysgol Bangor yn sefydliad sy'n aelod a bod gan Lywodraeth Cymru sedd ar Fwrdd Forest Research.

**71.** Ychwanegodd y Dirprwy Brif Weinidog y canlynol:

> *"Disgwylir i swyddfa'r DU gryfhau'r berthynas a'r cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU ac EFI ymhellach a chaniatáu i arbenigwyr EFI gymryd rhan fwy gweithredol mewn cyfarfodydd a thrafodaethau sy'n digwydd yn y DU. Unwaith y bydd y Cytundeb Gwlad Letyol ar waith, dylai fod yn haws i bob corff ac unigolyn yn y DU ymgysylltu'n uniongyrchol ag EFI oherwydd ei bresenoldeb ffisegol yn y DU. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'n cyflawni dros Gymru drwy'r sefydliadau sy'n aelodau".*[26]

---

[23] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 24 Mehefin 2024
[24] Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 17 Gorffennaf 2024
[25] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 16 Medi 2024
[26] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 16 Medi 2024